



Gwybodaeth Cydraddoldeb Comisiwn y Cynulliad Ionawr 2012

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Mae Comisiwn y Cynulliad yn darparu adnoddau, eiddo a staff i alluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i weithredu fel sefydliad seneddol. Felly, mae gennym gyfrifoldebau fel cyflogwr ac fel sefydliad sy'n rhoi cymorth i Aelodau'r Cynulliad ac sy'n rhyngweithio â'r cyhoedd. Ymhlith y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu ar gyfer y cyhoedd mae croesawu ymwelwyr â'n hystâd, darparu gwybodaeth i bobl ac ymweld ag ysgolion a grwpiau cymunedol ar draws Cymru.

Proffil staff y sefydliad

Mae'r wybodaeth a gyflwynir yma'n rhoi cipolwg o'n gweithlu fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2011. Byddwn yn parhau i gynhyrchu gwybodaeth am ein proffil staff bob mis Ebrill yn ein Hadroddiadau Cydraddoldeb Blynnyddol. Caiff gwybodaeth fonitro ei chasglu a'i storio drwy ein system Adnoddau Dynol U-Access lle gofynnir i aelodau o staff hunan-ddatgan eu nodweddion cydraddoldeb. Gan ein bod yn dibynnu ar hunan-ddatganiadau, mae bylchau yn parhau i fod yn ein gwybodaeth. Lle mae bylchau, byddwn yn gweithio i lenwi'r rhain dros y flwyddyn sydd i ddod drwy annog pobl i hunan-ddatgan.

Caiff ein strwythur staff ei drefnu fel a ganlyn:

Uwch Staff, gan gynnwys y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr
Band Gweithredol 1
Band Gweithredol 2
Band Rheoli 1
Band Rheoli 2
Band Rheoli 3
Cymorth Tîm

Rhyw a graddfa

	Tîm	M-3	M-2	M-1	E-2	E-1	Uwch staff	Cyfanswm
Merched	39	28	63	25	19	7	2	183
Dynion	76	30	28	21	16	3	3	177
Cyfanswm	115	58	91	46	35	10	5	360

Mae'r ffigurau uchod yn dangos bod cydbwysedd da rhwng y rhywiau yn y sefydliad gyda 50.8% o'r staff yn ferched a 49.2% yn ddynion. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod gwahaniaethau. Er enghraifft, mae mwy o ddynion na merched ar lefel Cymorth Tîm gan mai swyddi Swyddogion Diogelwch yw'r rhan fwyaf ar y lefel hon. Cafodd gwaith ei wneud i ddenu mwy o ferched i'r swyddi hyn. Cyfieithwyr benywaidd sy'n dal llawer o swyddi Rheoli Band 2.

Grŵp oedran a graddfa

	Tîm	M-3	M-2	M-1	E-2	E-1	Uwch Staff	Cyfanswm
20-24	10	1	1	0	0	0	0	12
25-29	15	25	22	4	1	0	0	67
30-34	13	16	19	11	8	0	0	67
35-39	9	5	16	13	4	2	0	49
40-44	6	4	7	8	6	2	0	33
45-49	8	4	13	3	4	2	1	35
50-54	16	2	5	5	9	3	2	42
55-59	17	0	5	2	2	1	1	28
60-64	19	1	1	0	1	0	1	23
Dros 65	2	0	2	0	0	0	0	4
Cyfanswm	115	58	91	46	35	10	5	360

Mae'r ffigurau'n dangos bod 50.8% o'n gweithlu'n dod o fewn y grŵp oedran 25-40. Dim ond 3.3% sydd yn y band oedran 20-25 ac mae 7.5 % yn 60 neu'n hŷn. Rydym yn annog ceisiadau gan bobl hŷn ac mae gennym achrediad Hyrwyddwr Cyflogwr Cadarnhaol o ran Oedran.

Staff anabl fesul graddfa

	Tîm	M-3	M-2	M-1	E-2	E-1	Uwch Staff	Cyfanswm
Anawsterau Dysgu (yn unig)	0	1	0	0	0	0	0	1
Pobl nad ydynt yn anabl	69	35	53	31	20	7	5	220
Anawsterau cydsymud corfforol (yn unig)	0	1	0	0	0	0	0	1
Gallu corfforol is (yn unig)	0	0	0	1	1	0	0	2
Dim ateb	46	21	38	14	14	3	0	136
Cyfanswm	115	58	91	46	35	10	5	360

Mae'r ffigurau uchod yn dangos mai dim ond pedwar aelod o staff sydd wedi datgan anabledd. Mae hyn yn cyfateb i 1.1% o'n gweithlu. Mae'r ffigurau hefyd yn dangos bod 37.8% o'n gweithlu eto i ddatgan a ydynt yn anabl. Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn gweithio i gynyddu nifer y staff sy'n datgan a ydynt

yn anabl. Rydym yn annog ceisiadau am swyddi gan bobl anabl ac rydym yn gweithredu'r safon Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl.

Ethnigrwydd fesul graddfa

	Tîm	M-3	M-2	M-1	E-2, E-1 Uwch staff	Cyfanswm
Asiaidd - Indiaidd	3	0	0	0	0	3
Asiaidd - Bangladeshi	3	1	0	0	0	4
Asiaidd - Tsieinaidd	0	1	0	0	0	1
Du - Affricanaidd	2	0	0	0	0	2
Du - Caribiaidd	1	0	0	0	0	1
Cymysg - Du Affricanaidd a Gwyn	1	1	0	0	0	2
Cefndir Du arall	1	0	0	0	0	1
Cefndir Ethnig arall	1	0	1	0	0	2
Cefndir Ethnig Cymysg arall	0	0	0	0	2	2
Gwyn	95	55	84	44	44	322
Dim ateb	8	0	6	2	4	20
Cyfanswm	115	58	91	46	50	360

Er mwyn bodloni gofynion Diogelu Data rydym wedi cyfuno'r bandiau Gweithredol ac Uwch. Mae'n proffil staff yn dangos bod 89.4% o staff wedi galw eu hunain yn wyn, bod 5% wedi galw eu hunain yn ddu ac o leiafrif ethnig, ac nad yw 5.6% wedi cofnodi ethnigrwydd eto. Rydym yn cydnabod bod dwy ran o dair o'r bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME) sydd ar y staff ar raddfa cymorth tîm.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif bod 10% o gyfanswm y bobl sy'n byw yn ninas Caerdydd yn arferol, nad ydynt yn wyn, tra oedd yr amcangyfrif ar gyfer Cymru gyfan yn sylweddol is, sef 2.9%.¹ Er bod gweithlu o 5% o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn is na'r 10% o fewn yr ardal leol, mae poblogaeth yr ardal a ddiffiniwyd yn swyddogol yn ardal teithio i'r gwaith Caerdydd² yn nes at 4.5%.

¹ Caerdydd – Beth sy'n Bwysig - 2010:2020 Y Strategaeth 10 Mlynedd – Asesiad Prif Anghenion 2010

² Dadansoddiad y Gwasanaeth Ymchwil o ffigurau Cyfrifiad 2001.

Cyfeiriadedd rhywiol fesul graddfa

	TîM	M-3	M-2	M-1	E-1, E-2 Uwch Staff	Cyfanswm
Dyn deurywiol	0	0	0	0	1	1
Dyn hoyw	0	0	2	1	2	5
Dynes hoyw / Lesbiad	1	0	0	0	0	1
Heterorywiol	37	13	20	13	12	95
Gwell ganddynt beidio â dweud	0	1	0	0	0	1
Dim ateb	77	44	69	32	35	257
Cyfanswm	115	58	91	46	50	360

Er mwyn bodloni gofynion Diogelu Data rydym wedi cyfuno'r bandiau Gweithredol ac Uwch. Mae'r ffigurau'n dangos tra bo 1.9% o'n gweithlu'n lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol, mae 71.4% o'n gweithlu eto i ddatgan eu cyfeiriadedd rhywiol. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn gweithio i gynyddu nifer y staff sy'n datgan eu cyfeiriadedd rhywiol.

Statws amser-llawn a rhan-amser fesul rhyw a graddfa

	TîM			M-3			M-2		
	Amser-llawn	Rhan-amser	Cyfanswm	Amser-llawn	Rhan-amser	Cyfanswm	Amser-llawn	Rhan-amser	Cyfanswm
Merched	32	7	39	28	0	28	49	14	63
Dynion	71	5	76	29	1	30	26	2	28
Cyfanswm	103	12	115	57	1	58	75	16	91

	M-1			E-2			E-1			Uwch Staff		
	Amser-llawn	Rhan-amser	Cyfanswm	Amser-llawn	Rhan-amser	Cyfanswm	Amser-llawn	Rhan-amser	Cyfanswm	Amser-llawn	Rhan-amser	Cyfanswm
Merched	23	2	25	15	4	19	7	0	7	2	0	2
Dynion	20	1	21	16	0	16	3	0	3	2	1	3
Cyfanswm	43	3	46	31	4	35	10	0	10	4	1	5

Mae'r ffigurau uchod yn dangos bod 27 o ferched, sef 14.8% o'n staff benywaidd, yn gweithio'n rhan-amser o'i gymharu â 10 dyn, sef 5.6% o'n staff gwrywaidd.

Crefydd / cred fesul graddfa

	TîM	M-3	M-2	M-1	E-2	E-1	Uwch Staff	Cyfanswm
Agnostig	1	2	1	2	1	0	0	7
Anffyddiwr	0	3	1	1	1	1	1	8
Cristnogaeth	2	2	6	4	3	0	0	17
Yr Eglwys yng Nghymru/Eglwys Lloegr	5	0	2	2	2	0	0	11
Hindŵaeth	1	0	0	0	0	0	0	1
Pabydd	4	1	0	0	0	0	0	5
Dim	18	1	6	3	2	1	0	31
Arall	2	2	1	1	1	0	0	7
Gwell ganddynt beidio â dweud	0	3	3	1	0	1	0	8
Dim ateb	82	44	71	32	25	7	4	265
Cyfanswm	115	58	91	46	35	10	5	360

Mae'r ffigurau uchod yn dangos bod 73.6% o staff eto i ddatgan a oes ganddynt grefydd / cred er bod cymysgedd da o grefyddau / credoau o fewn y sefydliad. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn gweithio i gynyddu nifer y staff sy'n datgan eu crefydd / cred.

Trawsrywedd

Nid oes unrhyw aelod o staff wedi datgan eu bod wedi cael, yn cael neu'n bwriadu cael ailbennu eu rhywedd. Rydym wedi gweithio gydag eiriolwyr trawsryweddol i greu Polisi Ailbennu Rhywedd pe bai unrhyw aelod o staff yn cael ailbennu eu rhywedd

Archwiliad Tâl Cyfartal

Cynhaliwyd Adolygiad Tâl Cyfartal ac mae'r canlyniadau i'w gweld yn Atodiad A.

Er bod y dadansoddiad yn awgrymu bod cyflog sylfaenol canolrifol gweithwyr benywaidd 37.3% ar y blaen i gyflog sylfaenol canolrifol gweithwyr gwrywaidd a bod cyfanswm cyflog canolrifol gweithwyr benywaidd 26.2% ar y blaen i gyfanswm cyflog canolrifol gweithwyr gwrywaidd, caiff hyn ei egluro gan y ffaith bod gan y Comisiwn nifer anghyfartal o uchel o weithwyr gwrywaidd yn y band TîM sef y band sy'n cael y cyflog isaf. Mae hyn o ganlyniad i'r ffaith bod bron i hanner y staff sydd ar y raddfa hon yn weithwyr yng ngwasanaeth diogelwch y Comisiwn lle mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ddynion. Mae ymarferion recriwtio wedi ceisio lleihau'r hollt anghyfartal rhwng merched a dynion o fewn y gwasanaeth hwn ond mae'n broses araf.

Wrth ystyried gwahaniaethau fesul graddfa, nid oes gan unrhyw raddfa wahaniaeth o fwy na 4.2% mewn cyfanswm cyflog canolrifol. Mae'r gwahaniaeth o 4.2% yn y raddfa M-3 ac mae'n bennaf o ganlyniad i hyd gwasanaeth yr unigolion dan sylw.

Lleoliadau gwaith

O sylwi ar y diffygion ym mhroffil ein gweithlu, rydym wedi trefnu lleoliadau gwaith i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ac i unigolyn â salwch meddwl. Rydym wedi gwneud ymrwymiad yn ein Cynllun Cydraddoldeb newydd, sydd i'w gyhoeddi ym mis Ebrill 2012, i barhau i drefnu lleoliadau gwaith wedi'u cynnal ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac i fynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal pobl amrywiol rhag ymgeisio am swyddi.

Cefnogi staff

Mae gennym nifer o ddulliau ar waith i gefnogi ein gweithlu amrywiol gan gynnwys y canlynol:

- Mae'n Tîm Cydraddoldeb yn darparu cyngor a chanllawiau i staff mewn perthynas â chydraddoldeb a mynediad
- Mae'r Tîm Gweithrediadau Adnoddau Dynol yn darparu cyngor mewn perthynas â'n polisïau staff
- Mae'n tîm Iechyd a Diogelwch yn asesu staff ac yn creu Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng (PEEP) ar gyfer staff anabl.
- Mae gennym linell gymorth i weithwyr, sy'n darparu gwasanaeth cwnsela a chyngor cyfrinachol rhad ac am ddim i staff
- Mae gennym amrywiaeth o opsiynau gweithio hyblyg ar gael i staff gan gynnwys gweithio llai o oriau, gweithio'n rhan-amser, oriau cywasgedig, gweithio gartref, gweithio oriau hyblyg a gweithio yn ystod tymhorau ysgol.
- Caiff yr holl nodweddion gwarchoddedig eu cwmpasu gan ein polisi Urddas yn y Gweithle. Mae hwn yn amlinellu ein hymrwymiad i gydraddoldeb a'r gweithdrefnau sy'n cael eu dilyn pe bai honiad o fwlio, aflonyddu, gwahaniaethu neu erledigaeth yn cael ei wneud. Mae'r polisi yn mynd ymhellach na'r hyn sy'n ofynnol yn statudol. Dyma'r diffiniad o aflonyddu a fabwysiadwyd gan y Cynulliad:

'Ymddwyn mewn ffordd ddigroeso sy'n effeithio ar urddas dynion a merched yn y gweithle. Gall fod yn seiliedig ar oed, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, hil, lliw, cenedligrwydd, tras ethnig, cysylltiad ag iaith leiafrifol, anabledd neu gyflwr meddygol, crefydd neu gred neu ddiffyg crefydd neu gred, aelodaeth o undeb llafur neu ddiffyg aelodaeth o undeb llafur, amgylchiadau domestig, eiddo, genedigaeth neu statws arall neu nodwedd bersonol yr unigolyn a gall

fod yn barhaus neu hyd yn oed mewn rhai achosion yn achos ar ei ben ei hun'.

Cymorth i staff fesul nodwedd warchoddedig

Oed

Caiff staff hŷn a staff iau eu cwmpasu'n gyfartal gan ein polisïau Adnoddau Dynol. Mae pob un o'n polisïau Adnoddau Dynol yn cael eu hasesu o ran effaith er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael effaith negyddol ar aelodau hŷn nac ar aelodau iau o staff.

Anabledd

Mae'r holl staff yn cael asesiadau Cyfarpar Sgrin Arddangos i ganfod a oes ganddynt unrhyw ofynion o ran mynediad. Gwneir pob addasiad rhesymol i fodloni'u hanghenion. Rhoddir cyfle iddynt hefyd ddatblygu Cynlluniau Gadael mewn Argyfwng Personol. Hyd yma, mae pedwar aelod o staff wedi datblygu cynllun o'r fath gyda'n Tîm Iechyd a Diogelwch. Mae gennym rwydwaith staff anabl gweithgar iawn sy'n cynnig cymorth i staff anabl, yn hyrwyddo cydraddoldeb drwy'r sefydliad ac sy'n asesu effaith ein polisïau. Mae pob un o'n polisïau Adnoddau Dynol yn cael eu hasesu o ran effaith er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael effaith negyddol ar staff anabl.

Ffydd / Cred

Gall aelodau o staff sy'n arddel ffydd / cred arsylwi'u ffydd / cred yn ystod oriau gwaith. Mae gennym ystafell weddi ar gael i holl aelodau'r staff ac mae aelodau o'r staff sy'n Gristnogion wedi sefydlu grŵp brecwast gweddi. Caniateir i staff newid eu patrymau gwaith pe baent am ymprydio yn ystod Ramadan. Rydym yn codi ymwybyddiaeth o amrywiol grefyddau / credoau drwy gysylltiadau mewnol er mwyn meithrin perthynas dda ac rydym wedi cynnal digwyddiadau ymwybyddiaeth ar gyfer staff fel sesiwn ar Deall Islam. Mae pob un o'n polisïau Adnoddau Dynol yn cael eu hasesu o ran effaith er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael effaith negyddol ar staff sy'n arddel crefyddau / credoau gwahanol.

Ailbennu Rhywedd

Caiff staff trawsryweddol gefnogaeth drwy ein Polisi Ailbennu Rhywedd. Mae croeso iddynt hefyd ymuno â'n rhwydwaith staff lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LHDaT). Rydym yn defnyddio cysylltiadau mewnol i godi ymwybyddiaeth o faterion trawsryweddol yn ystod Mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol ac ar y Diwrnod Rhyngwladol yn erbyn Homoffobia a Thrawsffobia. Mae pob un o'n polisïau Adnoddau Dynol yn cael eu hasesu o ran effaith er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael effaith negyddol ar staff trawsryweddol.

Priodas a Phartneriaeth Sifil

Mae pob un o'n polisïau Adnoddau Dynol yn cael eu hasesu o ran effaith er mwyn sicrhau eu bod yr un mor berthnasol i bobl sy'n briod ag y maent i bobl sydd mewn partneriaeth sifil.

Mamolaeth a Beichiogrwydd

Mae gennym bolisïau Adnoddau Dynol cefnogol iawn ac rydym yn cynnig absenoldeb mamolaeth a chyd-riant hael iawn. Mae gennym ymrwymiad yn ein Cynllun Cydraddoldeb i ddatblygu rhwydwaith staff mamolaeth er mwyn cynnig cymorth ychwanegol i aelodau o staff ac i asesu effaith polisïau. Gall staff sy'n dychwelyd i'r gwaith newid eu patrymau gwaith i gyd-fynd â'u sefyllfa deuluol newydd a gallant ddefnyddio swyddfa ein Nyrs Iechyd Galwedigaethol neu ein hystafell cymorth cyntaf pe bai arnynt angen gorffwys neu dynnu llaeth yn ystod oriau gwaith. Mae pob un o'n polisïau Adnoddau Dynol yn cael eu hasesu o ran effaith er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael effaith negyddol ar staff sy'n feichiog, ar absenoldeb mamolaeth neu'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl absenoldeb mamolaeth.

Hil

Mae gennym ymrwymiad yn ein Cynllun Cydraddoldeb i ddatblygu rhwydwaith staff pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a fyddai'n cynnig cymorth i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sy'n aelodau o staff, asesu effaith polisïau a hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Mae pob un o'n polisïau Adnoddau Dynol yn cael eu hasesu o ran effaith er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael effaith negyddol ar bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sy'n aelodau o staff.

Rhyw

Rydym yn cynnal Archwiliad Tâl Cyfartal bob blwyddyn er mwyn canfod unrhyw wahaniaethau o ran arwahanu galwedigaethol na ellir ei egluro. Mae gennym nifer o opsiynau gweithio hyblyg ar gael i staff ynghyd â pholisïau teulu a gofalwyr cefnogol iawn. Rydym wedi datblygu polisi trais domestig er mwyn rhoi cymorth i staff yn y gweithle. Mae pob un o'n polisïau Adnoddau Dynol yn cael eu hasesu o ran effaith er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael effaith negyddol ar y gwahanol rywiau.

Cyfeiriadedd Rhywiol

Mae gennym rwydwaith staff lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol gweithgar iawn sy'n rhoi cymorth i staff lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, yn hyrwyddo cydraddoldeb drwy'r sefydliad ac sy'n asesu effaith ein polisïau. Rydym yn Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall a chawsom ein rhestru ymhlith y 100 cyflogwr mwyaf cyfeillgar tuag at bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol

a thrawsrywiol ym Mhrydain ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall am y pedair blynedd diwethaf. Ym Mynegai 2012 cawn ein rhestru'n 20fed. Rydym yn defnyddio cysylltiadau mewnol i godi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â phobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn ystod Mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol ac ar y Diwrnod Rhyngwladol yn erbyn Homoffobia a Thrawsffobia. Mae pob un o'n polisïau staff yn cael eu hasesu o ran effaith er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael effaith negyddol ar bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol.

Ymgynghori ar Gynllun Cydraddoldeb 2012-2016

Drwy gydol mis Hydref a mis Tachwedd 2011, buom yn ymgynghori â gweithwyr a defnyddwyr gwasanaethau er mwyn casglu gwybodaeth am y ffordd y mae'n gwaith yn effeithio ar bobl â nodweddion gwarchoddedig. Gofynnwyd i staff am y cymorth y maent yn ei gael a lle gallwn wneud gwelliannau. Gofynnwyd i Aelodau'r Cynulliad ac aelodau'r cyhoedd am y gwasanaeth y maent yn ei gael gan Gomisiwn y Cynulliad ac am ba welliannau y gellir eu gwneud. Cafodd yr holl wybodaeth a gawsom ei dadansoddi er mwyn llywio'n hamcanion cydraddoldeb.

Yn fewnol, lluniwyd arolygon dwyieithog ar-lein ar gyfer staff y Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad a'u staff hwythau. Aethom i gyfarfodydd tîm a chynhaliwyd grwpiau ffocws mewnol gyda'r staff, gan gynnwys ein rhwydweithiau staff, staff contract a Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad.

Yn allanol, lluniwyd arolwg dwyieithog ar-lein mewn amrywiaeth o fformatau amgen ac ieithoedd cymunedol a oedd ar gael ar ein gwefan ac a hyrwyddwyd drwy ddatganiad i'r wasg, Twitter a Facebook. Cafodd y wybodaeth ei chynhyrchu mewn fformat darllen hawdd, Iaith Arwyddion Prydain, sain, print bras, Somali, Arabeg, Bengali, Wrddw, Gwjarati, Ffrangeg, Hindw, Pwnjabi, Pwyleg a Mandarin. Cafodd y lincs i'r arolwg cyhoeddus a'r amrywiaeth o fformatau eu rhannu ymysg ein holl gysylltiadau, ym mhob maes cydraddoldeb yng Nghymru. Cafodd y lincs i'n hymgyngoriad eu hyrwyddo hefyd drwy sefydliadau allanol a oedd yn cynnwys Rhwydwaith Amlddiwylliannol Llanelli, Bwletin Casnewydd Iach, Silobreaker, Cyfranogaeth Cymru, Stonewall Cymru, Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Wrecsam, Anabledd Cymru, Cymdeithas y Byddar Cymru. Mae Tabl 1 isod yn amlinellu'r grwpiau ffocws a'r cyfarfodydd a gynhaliwyd gyda sefydliadau allanol.

Tabl 1: Grwpiau ffocws allanol

Caerdydd	Mardi Gras Caerdydd-Cymru
Ar draws De Cymru	Fforwm Ffydd y Cymoedd Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru (SEWREC)
Llandeilo	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin Trans GIST
Y Senedd	Merched yn Gwneud Gwahaniaeth
Abertawe	MEWN Cymru
Wrecsam	Grŵp Cymorth Ceiswyr Lloches Wrecsam Tangnefedd – Fforwm Rhyng-ffydd, Heddwch a Chyfiawnder Gogledd-ddwyrain Cymru
Bae Colwyn – Y Rhyl	Grŵp Mynediad Conwy VIVA – Grŵp Ieuentid LHDT

Yn ogystal â'n grwpiau ffocws, cawsom ymatebion i'n harolwg cyhoeddus gan amrywiaeth o unigolion a grwpiau gan gynnwys eiriolwyr anabledau, ymwelwyr â'r Mardi Gras, pobl drawsrywiol, Cytûn, Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched - Cymru, Cymdeithas y Byddar Cymru, Age Cymru, Chwarae Teg, Tai Pawb a grwpiau Rhoi Pobl yn Gyntaf. Cawsom 60 o ymatebion gan sefydliadau ac aelodau unigol o'r cyhoedd, gan gynnwys chwe ymateb ar fideo yn laith Arwyddion Prydain.

Defnyddiwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad i lywio datblygiad ein hamcanion cydraddoldeb a'n camau gweithredu. Caiff ein cynllun ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2012. Gellir gweld crynodeb o'r ymatebion [yma](#).

I staff, ymhlith y materion allweddol mae'r angen am hyfforddiant cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ohono, datblygu a hyrwyddo polisiau ymhellach er mwyn rhoi cymorth i staff, ystyried sut y gallwn fod yn weithlu mwy amrywiol a sut y gallwn fewnblannu cydraddoldeb ymhellach yng ngwaith Comisiwn y Cynulliad.

I Aelodau'r Cynulliad, ymhlith y materion allweddol mae hyfforddiant a gwybodaeth mewn perthynas â chydaddoldeb a mynediad, a chymorth i'w galluogi i gyfathrebu ag etholwyr amrywiol.

I'r cyhoedd, ymhlith y materion allweddol mae mynediad at wybodaeth am waith y Cynulliad, sut i ymgysylltu â'r Cynulliad a hygyrchedd ein hystâd.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb yn y broses o gael ei gwblhau a chaiff ei gyhoeddi ar 1 Ebrill. Mae'r camau gweithredu yn y cynllun yn mynd i'r afael â'r bylchau a amlygwyd gan yr asesiad hwn. Dwy flaenoriaeth allweddol yw hyfforddi staff a chyflwyno Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Hyfforddiant

Un o'n blaenoriaethau dros y flwyddyn nesaf yw datblygu rhaglen hyfforddi cydraddoldeb ar gyfer yr holl staff.

Aseidiadau o Effaith

Cynhelir aseidiadau o'r effaith ar gydraddoldeb gan y Tîm Cydraddoldeb, y rhwydweithiau staff, yr undebau llafur a, lle mae hynny'n briodol, cyrff allanol. Cynhaliwyd aseidiadau yn y meysydd canlynol:

- Adolygu brand cyhoeddi'r Cynulliad
- Adnewyddu'r wefan
- Polisiâu Adnoddau Dynol, gan gynnwys Urddas yn y Gweithle, Cwynion, Cyfnodau Prawf, Absenoldeb Arbennig, Apwyntiadau meddygol, Ymddiswyddo, Gwerthuso swyddi, Cyfnod rhybudd, Ailbennu rhywedd, Dileu swydd, Absenoldeb cyd-riant, Hyblygrwydd staffio, Datgelu er Lles y Cyhoedd
- Adolygu offer sain yn y Senedd
- Polisi Amddiffyn Plant
- Polisi tystion agored i niwed
- Y Penderfyniad ar Dâl a Lwfansau Aelodau

Rydym yn y broses o fireinio'n proses asesu effaith a chanfod pa bolisiâu, gwasanaethau, strategaethau, prosiectau, contractau sy'n berthnasol iawn i gydraddoldeb er mwyn cynnal rhaglen dreigl o aseidiadau.

Gwybodaeth am wasanaethau

Ein defnyddwyr gwasanaeth a'r bobl y mae ein polisiâu a'n harferion yn effeithio arnynt yw Aelodau'r Cynulliad yr ydym yn eu gwasanaethu ac aelodau'r cyhoedd yr ydym yn cysylltu â hwy. Ymhlith y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i'r cyhoedd mae ymgysylltiad cyhoeddus ac ymweliadau ag ystâd y Cynulliad.

Cynlluniwyd yr adran hon i amlygu'r ffordd yr ydym yn rhoi sylw priodol i gydraddoldeb drwy'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu. Nid ydym ar hyn o bryd yn casglu gwybodaeth feintiol yn systematig am ein defnyddwyr gwasanaeth ond mae gennym gynlluniau ar waith i ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud hynny yn y dyfodol. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yma felly'n ansoddol.

Aelodau'r Cynulliad

Fel sefydliad rydym yn darparu gwasanaethau i Aelodau'r Cynulliad. Caiff cydraddoldeb ei gynnwys mewn amrywiaeth o'r gwaith yr ydym yn ei wneud i roi cymorth i Aelodau'r cynulliad ac wrth weithredu busnes y Cynulliad.

Mae ein Gwasanaeth Ymchwil yn darparu gwybodaeth i Aelodau'r Cynulliad a phwyllgorau'r Cynulliad. Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu cynnwys yn eu gwybodaeth a chawsant hyfforddiant yn ddiweddar gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Mae Gwasanaeth y Pwyllgorau'n darparu cymorth ysgrifenyddol i bwyllgorau'r Cynulliad a chyngor ar weithdrefnau i gadeiryddion ac Aelodau pwyllgorau. Mae Aelodau'r Cynulliad yn dibynnu ar Wasanaeth y Pwyllgorau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol ac i gyflwyno ehangder o dystion a thrywydd tystiolaeth i'r pwyllgorau eu hystyried. Maent yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Gwasanaeth Ymchwil ac Allgymorth er mwyn cynnwys pobl amrywiol yng ngwaith pwyllgorau. Wrth gynnal digwyddiadau y tu allan i'n hystâd, bydd staff pwyllgorau'n defnyddio rhestr wirio hygyrchedd er mwyn sicrhau bod lleoliadau'n hygyrch i dystion ac arsyllwyr. Maent hefyd wedi llunio canllawiau ar sut i roi cymorth mewn cyfarfodydd pwyllgor i dystion sy'n agored i niwed. Gall y cymorth gynnwys cynnal y sesiwn dystiolaeth mewn ffordd lai ffurfiol, gofyn cwestiynau mwy agored, caniatáu i'r tystion gael egwyl o'r cwestiynau a chaniatáu i dystion ddod â rhywun at fwrdd y pwyllgor gyda hwy i'w cynorthwyo yn ystod y sesiwn dystiolaeth.

Mae'r Tîm Cydraddoldeb wedi darparu amrywiaeth o ganllawiau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn eu swyddogaeth fel cyflogwyr a darparwyr gwasanaeth. Ymhlith y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys mae gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl, llogi swyddfa hygyrch, llunio gwybodaeth hygyrch a materion yn ymwneud â staffio.

Gwneir addasiadau rhesymol er mwyn galluogi Aelodau'r Cynulliad a'u staff i gyflawni'u gwaith.

Yn dilyn angen a ganfuwyd gan Aelodau'r Cynulliad, rydym yn datblygu Cronfa Fynediad a fydd yn darparu cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad sy'n anabl ac i alluogi Aelodau'r Cynulliad i dalu am gymorth i gyfathrebu â'u hetholwyr amrywiol. Cynhaliwyd proses Sgrinio'r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn cyfrannu at ddatblygu'r Penderfyniad ar Dâl a Lwfansau Aelodau a rhagwelir y byddwn yn parhau i gefnogi'r Bwrdd Taliadau fel hyn.

Aelodau'r cyhoedd

Mae ymchwil yn dangos bod gwybodaeth, diddordeb ac ymglymiad y cyhoedd mewn gwleidyddiaeth yn parhau i gael ei lunio gan ryw, oedran, dosbarth ac ethnigrwydd person. Yn anghyfartal, mae dynion, pobl hŷn, dosbarthiadau cymdeithasol mwy cyfoethog a phobl o gefndiroedd ethnig gwyn yn parhau i ymgysylltu mwy â gwleidyddiaeth. Mae nifer sylweddol o unigolion, cymunedau a grwpiau cymdeithasol nad ydynt yn ymgysylltu â gwleidyddiaeth ac maent yn parhau i fod yn 'anodd eu cyrraedd'. Rydym wedi defnyddio adroddiadau Cymdeithas Hansard [Audit of Political Engagement 8: The 2011 Report](#), a [Connecting Citizens to Parliament](#), adroddiadau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) [Not just another statistic](#) a [How fair is Wales?](#), a gwaith ymchwil Stonewall Cymru a elwir yn [Counted In!](#) i ganfod pa grwpiau sy'n parhau i beidio ag ymgysylltu â'r broses wleidyddol. Mae'r wybodaeth hon yn ein cynorthwyo i ddatblygu ein strategaethau ymgysylltu a chyfathrebu.

Allgymorth

Mae gan Gomisiwn y Cynulliad dîm Allgymorth penodedig sy'n gweithio gydag amrywiaeth o grwpiau a sefydliadau ar draws Cymru. Mae'r tîm yn cyfarfod â grwpiau gwahanol i gyflwyno gwaith y Cynulliad ac i hyrwyddo'r gwahanol ffyrdd y gall y cyhoedd ryngweithio ag Aelodau'r Cynulliad a busnes y Cynulliad. Mae gan y tîm gronfa ddata gynhwysfawr o grwpiau sy'n ymwneud â chydaddoldeb a dros y flwyddyn ddiwethaf maent wedi gweithio gyda llawer o grwpiau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol gan gynnwys Merched yn gwneud Gwahaniaeth, Grŵp Ieuenctid VIVA-LGBT, Cymdeithas y Byddar Cymru, Trans G.I.S.T., a Rhwydwaith Menywod Lleiafrifoedd Ethnig Cymru. Mae'r Tîm yn defnyddio bws allgymorth i ymweld â chymunedau ar draws Cymru ac i fynychu digwyddiadau mawr, fel Mardi Gras Caerdydd-Cymru. Mae'r bws yn hygyrch ac mae amrywiaeth o wybodaeth ar gael arni.

Gweler isod restr o grwpiau y mae'r Cynulliad wedi gwneud gwaith allgymorth gyda hwy rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2011. Mae rhai o'r ffigurau'n adlewyrchu gwaith lluosog gyda'r un sefydliad. Mae'n werth nodi bod gan fynychwyr rhai o'r grwpiau hunaniaeth lluosog nad yw'n cael ei adlewyrchu yn y ffigurau. Er enghraifft, mae llawer o fynychwyr digwyddiadau Sefydliad y Merched yn bobl hŷn ond ni chaiff y rhain eu cyfrif yn ddigwyddiadau allgymorth ar gyfer pobl hŷn yn yr ystadegau.

Math o grŵp	Nifer y grwpiau
Merched	21
Plant a phobl ifanc	20
Anabledd	9
Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig	6
Ffydd / Cred	3
Pobl Hŷn	3
LHDaT	1

Gwybodaeth i'r cyhoedd

Rydym yn cynhyrchu amrywiaeth o wybodaeth ar gyfer cynulleidfa gyhoeddus wedi'i chynllunio i gyflwyno pobl i waith y Cynulliad ac i annog ymgysylltiad â busnes y Cynulliad. Er enghraifft, ar gyfer ymgyrch Pleidleisiwch 2011 cynhyrchwyd gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau er mwyn egluro'r gwahanol etholiadau a oedd yn digwydd ym mis Mai 2011, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain, Braille, darllen hawdd, canllaw person ifanc a phrint bras.

Mae gan bob cyhoeddiad gan y Cynulliad ddatganiad sy'n amlinellu'r ffaith bod gwybodaeth ar gael mewn fformatau amgen os gwneir cais. Caiff ceisiadau o'r fath eu trin gyda chyn lleied o oedi â phosibl a heb unrhyw gost i'r person sy'n gwneud y cais.

Mae gwybodaeth sydd ar gael i ymwelwyr ar gael mewn print bras a chaiff ceisiadau eraill mewn perthynas â hygyrchedd eu bodloni. Rydym ar hyn o bryd yn y broses o ailddatblygu'n gwybodaeth i ymwelwyr a fydd ar gael mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ac mewn fformatau hygyrch eraill.

Mae nifer y ceisiadau am wybodaeth mewn fformatau hygyrch yn isel iawn. Rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2011, lle nad ydym wedi cyhoeddi'n rhagweithiol gwybodaeth ar ffurfiau hygyrch, rydym wedi ymateb i bedwar cais am wybodaeth mewn Braille, Iaith Arwyddion Prydain, darllen hawdd a phrint bras.

Gwefan

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymrwymo i wneud ei wefan mor hygyrch â phosibl i'w holl ddefnyddwyr. Wrth adnewyddu'r wefan yn ddiweddar gwnaethom ddau archwiliad cydraddoldeb er mwyn gwella hygyrchedd y wefan. Ceisiwyd cael atborth hefyd drwy serfwr defnyddwyr a defnyddiwyd y sylwadau i ddatblygu'r wefan.

Ymweliadau

Caiff ymwelwyr ag ystâd y Cynulliad eu croesawu gan staff Cyswllt Cyntaf sydd wedi cael hyfforddiant cydraddoldeb. Mae llawer wedi cael hyfforddiant ar groesawu gwesteion amrywiol a chaiff y rheini na chafodd eu hyfforddi, fel staff newydd, hyfforddiant o'r fath o fewn y flwyddyn sydd i ddod. Mae llawer o staff Cyswllt Cyntaf hefyd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o fod yn fyddar gyda rhai yn mynd ymlaen i ddysgu lefel 1 a lefel 2 o Iaith Arwyddion Prydain. Maent wedi defnyddio'r sgiliau hyn i groesawu ymwelwyr ac i roi taith anffurfiol heb ei chynllunio.

Gofynnir i bob ymwelydd, gan gynnwys grwpiau ysgol, sy'n archebu taith neu ymweliad â'r Cynulliad, a oes ganddynt unrhyw ofynion o ran mynediad ar gyfer eu hymweliad, a bodlonir ceisiadau o'r fath bob amser. Mae gwesteion wedi gwneud cais am amrywiaeth o gymorth mynediad gan gynnwys benthyg cadair olwyn, cael cyfieithydd Iaith Arwyddion Prydain, cyfieithydd i iaith arall a chyfleusterau ar gyfer ci cymorth.

Gall ymwelwyr adael adborth ar y safle drwy ein llyfr ymwelwyr, ein gorsaf adborth neu drwy siarad â'n staff. Pan gaiff materion yn ymwneud â chydaddoldeb a mynediad eu codi, caiff y rhain eu rheoli'n briodol. Er enghraifft, pan roddodd un ymwelydd adborth ar faint yr ysgrifen ar ein gwybodaeth i ymwelwyr, cynhyrchwyd fersiwn gyda phrint bras.

Rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2011 cafodd yr ymweliadau canlynol yn ymwneud â chydaddoldeb eu harchebu ymlaen llaw:

Math o grŵp	Nifer y grwpiau
Anabledd	12
Plant a phobl ifanc	5
Pobl hŷn	2
Grwpiau eraill yn ymwneud â chydaddoldeb	4

Mae gennym dîm Addysg penodedig sy'n croesawu grwpiau ysgol i'r Cynulliad ac sy'n ymweld ag ysgolion ar draws Cymru. Mae'r tîm wedi rhoi cyflwyniadau i chwech o grwpiau ar draws ysgolion anghenion arbennig ac i nifer o ddsbarthiadau prif ffrwd lle mae disgyblion unigol ag anghenion ychwanegol.

Digwyddiadau

Pa bryd bynnag y cynhaliwn ddigwyddiadau'r Cynulliad, byddwn bob amser yn gofyn a oes gan fynychwyr unrhyw ofynion o ran mynediad, a chaiff y rhain eu

bodloni bob amser. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi darparu cyfieithiadau yn iaith Arwyddion Prydain, gwefuslefarwyr, palanteipyddion a defnydd o'n system dolen.

Yn 2011, trefnodd y Cynulliad yn rhagweithiol y digwyddiadau canlynol mewn perthynas â chydaddoldeb ac roedd gan y Cynulliad bresenoldeb ynddynt: Mis Hanes LHDaT, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Mardi Gras Caerdydd-Cymru a Gwylnos y Byrillysg (seremoni holl-grefyddol i baratoi ar gyfer agor y Pedwerydd Cynulliad).

Trefnodd tîm Digwyddiadau Corfforaethol y Cynulliad hefyd i'r Llywydd gyfarfod â'r grwpiau canlynol mewn digwyddiadau yn ystod yr haf: Sefydliad y Merched, Merched y Wawr ac Age Cymru.

Rydym hefyd yn croesawu digwyddiadau sy'n cael eu noddi gan Aelodau'r Cynulliad ar gyfer sefydliadau eraill. Mae hwn yn wasanaeth adweithiol pan ddaw grŵp allanol sy'n chwilio am le i gynnal digwyddiad atom. Rydym yn sicrhau bod gofynion o ran mynediad yn cael eu hystyried, er mai cyfrifoldeb trefnydd y digwyddiad yw darparu unrhyw wasanaeth, fel cyfieithydd iaith Arwyddion Prydain. Rydym yn sicrhau bod materion eraill yn ymwneud â mynediad, fel ein system dolen, llogi cadair olwyn a mynediad i gŵn cymorth yn cael eu hwyluso. Byddwn bob amser yn gofyn am adborth gan drefnwyr digwyddiadau ac ychydig iawn o sylwadau negyddol a gawn am faterion yn ymwneud â mynediad. Rydym yn gweithredu ar yr adborth a gawn. Gwahoddir trefnwyr digwyddiadau i'n hadeilad i gynnal ymweliad safle cyn unrhyw ddigwyddiad. Mae hyn yn rhoi cyfle iddynt godi unrhyw faterion yn ymwneud â mynediad.

Rydym yn hyrwyddo digwyddiadau i grwpiau amrywiol ac mae gennym gam gweithredu yn ein Cynllun Cydraddoldeb newydd i hyrwyddo'r Cynulliad fel lleoliad hygyrch ar gyfer cleientiaid mwy amrywiol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cynulliad wedi croesawu amrywiaeth o ddigwyddiadau amrywiol ar gyfer sefydliadau allanol, gan gynnwys:

Math o grŵp	Nifer y grwpiau
Anabledd	16
Plant a phobl ifanc	3
LHDaT	1
Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig	1
Ffydd / Cred	1
Grwpiau eraill yn ymwneud â chydaddoldeb	3

Ystâd

Mae ystâd y Cynulliad yn cynnwys pedwar adeilad: y Senedd yw'r adeilad seneddol; lleoliad ar gyfer ymwelwyr ac arddangosfeydd yw'r Pierhead; Tŷ Hywel yw'r adeilad gweinyddol sy'n cynnwys swyddfeydd Aelodau'r Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad; a swyddfa Gwybodaeth Gogledd Cymru.

Cafodd cynghorydd mynediad ei gyflogi yn ystod cyfnod cynllunio ac adeiladu'r Senedd. Ers i'r Senedd agor rydym wedi parhau i reoli ystyriaethau o ran mynediad, gan wneud addasiadau angenrheidiol i'r adeilad.

Cafodd y Pierhead ei ailddatblygu'n ddiweddar fel lleoliad ar gyfer ymwelwyr ac arddangosfeydd a bu grŵp mynediad ar gyfer pobl anabl ynghlwm wrth ddatblygu'r cynlluniau.

Mae addasiadau mynediad hefyd wedi'u gwneud yn Nhŷ Hywel.

Gwahoddir ymwelwyr i adael adborth ar hygyrchedd ein hystâd ac fe weithredir arnynt yn briodol. Er enghraifft, gadawodd ymwelydd adborth am broblemau gyda'n harwyddion Braille yn y Pierhead. Aethpwyd i'r afael â'r problemau hyn ac mae'r arwyddion bellach wedi'u newid.

Rydym yn parhau i fonitro materion yn ymwneud â mynediad ac i weithredu ar yr adborth a dderbyniwn. Rydym yn bwriadu cynnal archwiliad o fynediad i'n hadeiladau o fewn y flwyddyn nesaf.

Mae gennym gyfleusterau hygyrch drwy ein hystâd gan gynnwys systemau dolen, rampiau, arwyddion a thoiledau hygyrch, gan gynnwys y cyfleuster o Ystafelloedd Newid. Caiff cyfleusterau o'r fath eu gwirio a'u cynnal a'u cadw'n rheolaidd.

Atebolrwydd a symud ymlaen

Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol sy'n rhoi manylion am y cynnydd gyda'n hamcanion cydraddoldeb ac sy'n amlygu rhywfaint o'r gwaith cydraddoldeb yr ydym wedi'i gyflawni. Bydd Comisiwn y Cynulliad, sef y grŵp o Aelodau'r Cynulliad sy'n goruchwyllo'r ffordd y caiff y Cynulliad ei redeg, yn craffu ar ein Hadroddiadau Blynyddol. Mae Adroddiadau Blynyddol blaenorol ar gael [yma](#). Caiff ein hadroddiad nesaf, yn cynnwys y cyfnod o fis Ionawr 2011 hyd at fis Mawrth 2012, ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2012. Byddwn yn cyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb newydd ym mis Ebrill 2012.

Caiff bylchau yn y wybodaeth a gyflwynir yma, fel gwybodaeth yn ymwneud â recriwtio, cwynion, dychwelyd i'r gwaith ar ôl absenoldeb mamolaeth a phobl sy'n gadael, eu cyflwyno yn ein Hadroddiad Blynyddol nesaf.

Atodiad A

Adolygiad Tâl Cyfartal - Cyflogau Cyfwerth ag Amser-llawn fel ar 31 Rhagfyr 2011

Holl Staff

	Cyflog Sylfaenol				Cyfanswm Cyflog		
	Dynion	Merched	% y Gwahaniaeth		Dynion	Merched	% y Gwahaniaeth
Lleiafswm	£17,410	£17,410	0.0%		£17,410	£17,410	0.0%
Uchafswm	£117,423	£138,640	18.1%		£117,423	£138,640	18.1%
Cymedrig	£30,035	£33,925	12.9%		£30,985	£34,493	11.3%
Canolrifol	£23,719	£32,567	37.3%		£25,809	£32,567	26.2%
Cyfrif	175	182			175	182	

Tîm

	Cyflog Sylfaenol				Cyfanswm Cyflog		
	Dynion	Merched	% y Gwahaniaeth		Dynion	Merched	% y Gwahaniaeth
Lleiafswm	£17,410	£17,410	0.0%		£17,410	£17,410	0.0%
Uchafswm	£20,483	£20,483	0.0%		£34,247	£26,321	-23.1%
Cymedrig	£19,944	£19,600	-1.7%		£20,757	£20,035	-3.5%
Canolrifol	£20,483	£20,483	0.0%		£20,483	£20,483	0.0%
Cyfrif	77	40			77	40	

M-3

	Cyflog Sylfaenol				Cyfanswm Cyflog		
	Dynion	Merched	% y Gwahaniaeth		Dynion	Merched	% y Gwahaniaeth
Lleiafswm	£20,585	£21,630	5.1%		£20,585	£21,630	5.1%
Uchafswm	£25,809	£25,809	0.0%		£34,135	£28,795	-15.6%
Cymedrig	£24,008	£24,029	0.1%		£25,161	£24,328	-3.3%
Canolrifol	£23,719	£23,719	0.0%		£24,764	£23,719	-4.2%
Cyfrif	29	27			29	27	

M-2

	Cyflog Sylfaenol				Cyfanswm Cyflog		
	Dynion	Merched	% y Gwahaniaeth		Dynion	Merched	% y Gwahaniaeth
Lleiafswm	£26,321	£26,321	0.0%		£26,321	£26,321	0.0%
Uchafswm	£34,002	£34,002	0.0%		£39,734	£38,033	-4.3%
Cymedrig	£31,528	£32,350	2.6%		£32,870	£33,147	0.8%
Canolrifol	£31,799	£34,002	6.9%		£33,292	£34,002	2.1%
Cyfrif	28	63			28	63	

M-1

	Cyflog Sylfaenol				Cyfanswm Cyflog		
	Dynion	Merched	% y Gwahaniaeth		Dynion	Merched	% y Gwahaniaeth
Lleiafswm	£34,821	£34,821	0.0%		£34,821	£34,821	0.0%
Uchafswm	£43,014	£43,014	0.0%		£46,906	£49,815	6.2%
Cymedrig	£40,439	£41,102	1.6%		£41,189	£42,255	2.6%
Canolrifol	£43,014	£43,014	0.0%		£43,014	£43,014	0.0%
Cyfrif	21	24			21	24	

E-2

	Cyflog Sylfaenol				Cyfanswm Cyflog		
	Dynion	Merched	% y Gwahaniaeth		Dynion	Merched	% y Gwahaniaeth
Lleiafswm	£49,322	£45,062	-8.6%		£49,322	£45,062	-8.6%
Uchafswm	£55,714	£55,714	0.0%		£67,581	£55,714	-17.6%
Cymedrig	£53,888	£52,350	-2.9%		£55,086	£52,350	-5.0%
Canolrifol	£54,649	£53,583	-1.9%		£55,714	£53,583	-3.8%
Cyfrif	14	19			14	19	

E-1

	Cyflog Sylfaenol				Cyfanswm Cyflog		
	Dynion	Merched	% y Gwahaniaeth		Dynion	Merched	% y Gwahaniaeth
Lleiafswm	£65,893	£63,373	-3.8%		£65,893	£63,373	-3.8%
Uchafswm	£68,412	£68,412	0.0%		£68,412	£68,412	0.0%
Cymedrig	£67,572	£66,613	-1.4%		£67,572	£66,613	-1.4%
Canolrifol	£68,412	£65,893	-3.7%		£68,412	£65,893	-3.7%
Cyfrif	3	7			3	7	

Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a Chynghorwyr Arbennig

	Cyflog Sylfaenol				Cyfanswm Cyflog		
	Dynion	Merched	% y Gwahaniaeth		Dynion	Merched	% y Gwahaniaeth
Lleiafswm	£108,065	£117,423	8.7%		£108,065	£117,423	8.7%
Uchafswm	£117,423	£138,640	18.1%		£117,423	£138,640	18.1%
Cymedrig	£111,713	£128,032	14.6%		£111,713	£128,032	14.6%
Canolrifol	£109,650	£128,032	16.8%		£109,650	£128,032	16.8%
Cyfrif	3	2			3	2	

**Gweithwyr amser-llawn yn erbyn
gweithwyr rhan-amser**

	Cyflog Sylfaenol						
	Dynion		Merched		% y Gwahaniaeth		
	Amser-llawn	Rhan-amser	Amser-llawn	Rhan-amser	Dynion rhan-amser yn erbyn Dynion amser-llawn	Merched rhan-amser yn erbyn Merched amser-llawn	Merched rhan-amser yn erbyn Dynion amser-llawn
Lleiafswm	£17,410	£20,483	£17,410	£17,410	17.7%	0.0%	0.0%
Uchafswm	£108,065	£117,423	£138,640	£55,714	8.7%	-59.8%	-48.4%
Cymedrig	£29,314	£39,029	£34,174	£32,837	33.1%	-3.9%	12.0%
Canolrifol	£23,719	£20,585	£31,031	£34,002	-13.2%	9.6%	43.4%
Cyfrif	162	13	148	34			

	Cyfanswm Cyflog						
	Dynion		Merched		% y Gwahaniaeth		
	Amser-llawn	Rhan-amser	Amser-llawn	Rhan-amser	Dynion rhan-amser yn erbyn Dynion amser-llawn	Merched rhan-amser yn erbyn Merched amser-llawn	Merched rhan-amser yn erbyn Dynion amser-llawn
Lleiafswm	£17,410	£20,483	£17,410	£17,410	17.7%	0.0%	0.0%
Uchafswm	£108,065	£117,423	£138,640	£55,714	8.7%	-59.8%	-48.4%
Cymedrig	£30,321	£39,261	£34,716	£33,521	29.5%	-3.4%	10.6%
Canolrifol	£25,809	£20,585	£31,727	£34,002	-20.2%	7.2%	31.7%
Cyfrif	162	13	148	34			

